Yswiriant Diogelu Taliadau

Beth yw Yswiriant Diogelu Taliadau?

Pan ydych yn cael benthyciad, credyd neu gerdyn siop, gofynnir i chi gymryd polisi yswiriant ar yr un pryd rhag ofn na fyddwch yn gallu fforddio'r ad-daliadau oherwydd salwch, diweithdra, damwain neu anabledd. Mae'r rhan fwyaf o bolisïau hefyd yn cynnwys budd-dal bywyd a fydd yn talu gweddill y benthyciad neu'r swm sy'n ddyledus ar eich cerdyn os ydych yn marw.

Gelwir y math hwn o yswiriant yn 'Yswiriant Diogelu Taliadau' (PPI).

Gall PPI ad-dalu cyllid car, benthyciadau personol, cardiau credyd a chardiau siop, dyledion catalog a morgeisi.

Yn aml iawn, mae taliadau PPI wedi'u cynnwys yn eich ad-daliadau benthyciad. Fodd bynnag, er bod y ddau yn cael eu cymryd ar yr un pryd, mae'n bwysig i chi gofio bod y benthyciad a'r PPI yn ddau wahanol beth. Pan fod benthyciwr yn gwerthu PPI, mae'n rhaid iddynt egluro hyn. Mae'n rhaid iddynt nodi pris y PPI a chost y benthyciad neu gerdyn a dylech lofnodi amdano ar ddogfen ar wahân. Os nad yw hyn yn digwydd, mae'n bosib y byddwch yn gallu hawlio achos o **gam werthu** (gweler isod).

Bydd contract eich polisi yswiriant gyda'r cwmni yswiriant, nid y cwmni a roddodd y benthyciad i chi. Os oes angen i chi wneud hawliad, bydd angen i chi wneud hyn drwy'r cwmni yswiriant.

Nid oes rhaid i chi gymryd PPI pan ydych yn cymryd benthyciad. Fodd bynnag, ni fydd rhai cwmnïau yn fodlon rhoi benthyciad i chi oni bai eich bod yn cymryd PPI. Mae perffaith hawl ganddynt i wneud hyn, ond os na hoffech PPI, efallai y byddai'n syniad da i chi fynd at fenthyciwr arall.

Hefyd, nid ddylai cwmnïau werthu polisïau PPI premiwm sengl ar gyfer benthyciadau ansicredig.

Pethau i feddwl amdanynt cyn i chi brynu PPI

Dylech feddwl yn ofalus iawn cyn prynu PPI. Dyma rai ffactorau y dylech eu hystyried:

Cost yr yswiriant – gall cost PPI fod yn uchel. Dylech o hyd siopa o gwmpas i sicrhau bod gennych y dêl orau. Pan ydych yn cymharu costau benthyciadau, sicrhewch eich bod yn cymharu benthyciadau sydd yr un swm dros yr un cyfnod o amser. Cofiwch fod cost y PPI yn gallu bod yn ychwanegol.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

A oes wir angen yr yswiriant arnoch – mae'n bosib bod eisoes gennych yswiriant sy'n gofalu am ad-daliadau benthyciad neu gredyd os yw eich amgylchiadau yn newid. Er enghraifft, efallai bod gennych yswiriant bywyd, math arall o yswiriant sy'n ymdrin â salwch, neu fod cynllun tâl salwch neu dâl colli gwaith eich cyflogwr yn berthnasol.

A fedrwch gael yswiriant rhywle arall – efallai y byddwch yn gallu prynu polisi neilltuol, a elwir weithiau yn yswiriant damwain, gwaeledd a diweithdra (ASU). Rydych fel arfer yn gallu prynu'r math hwn o bolisi gan frocer yswiriant neu gwmni sy'n gwerthu dros y rhyngrwyd neu dros y ffôn.

Ydy'r polisi yswiriant yn cwrdd â'ch anghenion - ni fydd llawer o bolisïau PPI yn ddilys mewn rhai amgylchiadau arbennig, er enghraifft, os ydych yn hunangyflogedig, dros yr oedran ymddeol neu os oes gennych gyflwr meddygol penodol.

Cyn eich bod yn prynu PPI, mynnwch **gopi o'r polisi** neu grynodeb o'r polisi a'i wirio'n ofalus er mwyn sicrhau y bydd yn ateb eich anghenion os bydd yn rhaid i chi wneud hawliad arno. Os oes gennych unrhyw amheuon ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r cwmni yswiriant a gofynnwch iddynt am eglurhad. Os oes yna amgylchiadau sydd ddim yn berthnasol i'r polisi, mae'n rhaid i'r cwmni yswiriant eu hesbonio i chi.

Gweler isod am restr o bethau i sylwi arnynt pan ydych yn ceisio penderfynu pa PPI sy'n addas ar eich cyfer chi.

Pa mor hir y bydd y polisi yn talu allan?
Fel arfer mae PPI yn gofalu am ad-daliadau benthyciad neu gredyd am gyfnod cyfyngedig o amser, deuddeg mis yn nodweddiadol. Mae llawer o bolisïau yn talu allan mewn blociau o 30 diwrnod. Mae hyn yn golygu os ydych yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl 28 diwrnod, ni fyddwch yn cael taliad. Fel arfer, mae'n rhaid i chi aros 30 diwrnod cyn gallwch wneud hawliad.

Oes yna unrhyw gyfyngiadau oedran?
Nid yw polisïau PPI fel arfer yn ddilys wedi i chi gyrraedd oed ymddeol.

A fydd y polisi yn gofalu amdanoch os ydych yn ddi-waith?
Os ydych yn ddi-waith, bydd PPI yn ddilys dim ond mewn amgylchiadau arbennig iawn.

Mae'n rhaid i chi fel arfer fod mewn cyflogaeth barhaus, llawn amser. Mae hyn fel arfer yn golygu bod angen i chi weithio o leiaf 16 awr yr wythnos neu fwy nag wythnos. Os oes gennych **gontract dros dro**, mae'n bosib na fydd y polisi yn ddilys.

Os ydych yn gweithio llawn amser, ond rydych yn gweithio i nifer o wahanol gyflogwyr, mae'n bosib na fyddwch yn gymwys. Efallai na fyddwch yn gymwys os ydych yn gweithio i un cyflogwr ar sail contract. Sicrhewch fod y cwmni yswiriant yn ymwybodol o holl fanylion eich trefniadau gwaith cyn i chi brynu PPI.

Nid yw llawer o bolisïau PPI yn ddilys os ydych yn **hunangyflogedig**. Mae gan lawer o bolisïau sy'n gofalu am bobl hunangyflogedig gyfyngiadau. Er enghraifft,

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

byddan nhw dim ond yn ddilys os ydych yn stopio gweithio oherwydd salwch, marwolaeth neu ddamwain, nid oherwydd diffyg gwaith. Os ydych yn hunangyflogedig, dylech wirio manylion polisi PPI yn ofalus iawn cyn ei brynu.

Ni fydd rhai polisïau yn ddilys os cewch eich **diswyddo** am gamymddwyn neu reswm arall. Hefyd, ni fyddant yn ddilys os ydych yn **colli gwaith yn wirfoddol**, neu os ydych yn gadael swydd oherwydd nad ydych yn ei hoffi.

A fydd y polisi yn ddilys os ydych yn sâl?
Ni fydd llawer o bolisïau PPI yn ddilys os oes gennych salwch penodol, er enghraifft, unrhyw gyflwr sy'n ymwneud â beichiogrwydd, cyffuriau neu alcohol. Mae'n bosib na fydd polisi yn ddilys os oes gennych salwch meddyliol neu broblemau gyda'ch cefn. Ni ddylai polisi wahaniaethu yn eich erbyn os ydych yn anabl. Os ydych yn credu bod polisi yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl, mynnwch gyngor.

Nid fydd y mwyafrif o bolisïau PPI yn ddilys os oes gennych salwch oedd eisoes gennych pan brynoch y polisi. Gelwir hyn yn '**gyflwr a oedd gennych eisoes**'. Hefyd, mae'n bosib na fydd polisi yn talu allan os na ddywedoch wrth y cwmni yswiriant am gyflwr meddygol oedd gennych yn y gorffennol.

Dylech roi cymaint o wybodaeth â phosibl am unrhyw gyflyrau meddygol sydd gennych, neu yr ydych wedi'u cael yn y gorffennol, i'r cwmni yswiriant. Dylech wneud hyn hyd yn oed os nad ydych chi'n credu eu bod yn berthnasol, neu os na ofynnwyd i chi pan brynoch yr yswiriant. Gallai hyn eich atal rhag talu premiymau yswiriant am bolisi na allwch ei hawlio oherwydd nid oeddech wedi rhoi'r wybodaeth gywir i'r cwmni yswiriant.

Canslo polisi PPI

Mae gennych yr hawl i ganslo polisi PPI o fewn 30 diwrnod. Bydd rhai polisïau yn rhoi mwy o amser i chi ganslo. Os dyma'r achos, mae'n rhaid i'r person sy'n gwerthu'r polisi esbonio'r cyfnod canslo i chi. Dylech dderbyn ad-daliad o'ch premiwm, os ydych wedi'i dalu. Weithiau, gellir didynnu swm oherwydd costau, neu oherwydd bod y polisi wedi gofalu amdanoch am gyfnod hir o amser. Fodd bynnag, nid oes hawl gan gwmni yswiriant eich cosbi am ganslo.

Os ydych yn talu premiymau misol ar gyfer eich PPI, gallwch fel arfer ganslo unrhyw bryd, ond efallai y bydd angen i chi roi rhybudd.

Mae'n bosib y gallwch ganslo polisi PPI oherwydd **cam werthu** (gweler isod).

Cwyno am PPI

Os ydych yn ei chael hi'n anodd gwneud hawliad ar bolisi PPI, efallai y byddwch am wneud cwyn. Dylech gwyno i'r **cwmni yswiriant** yn gyntaf. Mae'n bosib bod angen cymorth ymgynghorydd arbenigol arnoch i wneud cwyn.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os nad ydych yn fodlon ag ymateb y cwmni yswiriant, gallwch gyflwyno'ch cwyn i'r **Gwasanaeth yr Ombwdsman Ariannol**. Am fwy o wybodaeth, gweler gwefan yr Ombwdsman Ariannol yn www.financial-ombudsman.org.uk neu ffoniwch 0845 080 1800.

Cam werthu
Os na fedrwch wneud hawliad ar eich polisi, mae'n bosib y gwerthwyd polisi i chi nad oedd yn addas ar gyfer eich amgylchiadau. Er enghraifft, nid yw'r polisi yn gofalu am bobl hunangyflogedig a'ch bod yn hunangyflogedig. Os oedd y cwmni yn gwybod bod y polisi yn anghywir ar eich cyfer, neu nid oedd wedi gwirio eich amgylchiadau yn drylwyr cyn ei werthu i chi, efallai y gallwch hawlio achos o **gam werthu**. Mae hyn yn golygu bod y cwmni wedi gwerthu polisi i chi pan na ddylent fod wedi gwneud, ac mae'n bosib y gallwch ganslo'r polisi a chael ad-daliad.

Os ydych chi'n credu bod PPI, am ryw reswm, wedi cael ei gam-werth i chi, gallwch gwyno. Dylech gwyno i'r cwmni a werthodd y polisi i chi. Mynnwch gyngor gan arbenigwr profiadol i wneud hyn. Efallai y byddwch am ddefnyddio ein sampl o lythyr cwyno am PPI i gwyno am gam werthu (mae'r ddogfen hon yn agor yn Word)

Os nad yw'r cwmni a werthodd y polisi yn gynorthwyol, efallai y byddwch am gyfeirio'ch cwyn at Wasanaeth yr Ombwdsman Ariannol. Dylech ddefnyddio'r ffurflen gwyno sydd ar ei wefan: www.financial-ombudsman.org.uk

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn wasanaeth annibynnol, rhad ac am ddim. Mae gan eu gwefan fwy o wybodaeth am PPI a sut i gwyno am gam-werthu yn: www.moneyadviceservice.org.uk .

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Sampl o lythyr cwyno am PPI
- Credyd
- Yswiriant
- Cytundebau cyflogaeth
- Cymorth gyda dyled
- Gwasanaethau prynu – eich hawliau

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 8 Gorffennaf 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr